# CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Comisiynwyd tîm adolygu ym Mhrifysgol Birmingham gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i lunio argymhellion pellach ar lwfansau aelodau a materion cysylltiedig ynglŷn â threthiant, pensiynau, budd-daliadau, a'r rhwystrau sydd i wasanaeth cyhoeddus mewn perthynas â'r trefniadau gwleidyddol a dulliau newydd o weithio i awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi eu moderneiddio.

2. Mae argymhellion y timau adolygu fel a ganlyn:

## Y Lwfans Sylfaenol

### Y Tri Newidyn sydd i'w Hystyried wrth Lunio'r Lwfans Sylfaenol Safonol

- Yr oriau sydd eu hangen i wneud y gwaith yn effeithiol = 90 awr y mis
- Disgownt Gwasanaeth Cyhoeddus = traean
- Y gyfradd i'r gwaith (cyfartaledd Cymru am gyflog dynion nad yw am waith corfforol) = £12.51

3. Felly, yn seiliedig ar y newidynnau hyn y fformiwla a gynigiwyd i lunio'r lwfans sylfaenol safonol yw:

- 90 awr y mis wedi eu lluosi gan 12 mis = 1080
- Cymhwyso disgownt gwasanaeth cyhoeddus o draean = 1080 – 360 = 720 o oriau y talwyd amdanynt
- Lluosi 720 o oriau y talwyd amdanynt y flwyddyn gan £12.51 yr awr
- = £9,007

### Ffactorio i Gynorthwyo Cynghorwyr

4. Barn y tîm adolygu oedd ei bod yn deg ac yn rhesymol cael swm unigol safonol ar gyfer TG a'r Rhyngrwyd, Ffoniau ac Offer Swyddfa.

### Y Lwfans Sylfaenol a Argymhellir

5. O ganlyniad, argymhellir y dylai cyfanswm y lwfans sylfaenol i gynghorwyr yng Nghymru fod fel a ganlyn:

- Y lwfans sylfaenol safonol o £9,007
- Costau ffôn o £400 y flwyddyn
- Costau TG o £300 y flwyddyn
- Costau swyddfa o £200 y flwyddyn
- = £9,907 y flwyddyn

## Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig

### Bandiau Cyfrifoldeb Arbennig

6. Dylai fod chwe band cyfrifoldeb arbennig er mwyn cydnabod rôl newydd cynghorwyr dan y trefniadau gwleidyddol newydd.  Dyma hwy:

**Band 6:** Is-gadeiryddion pwyllgorau rheoleiddio a phwyllgorau eraill megis fforymau rhanbarthol ac arweinwyr grwpiau gwrthbleidiau llai.

**Band 5:** Cadeiryddion pwyllgorau rheoleiddio a phwyllgorau eraill, is-gadeiryddion pwyllgorau arolygu ac archwilio, ac aelodau cabinet (lle maent yn bodoli) sydd â phwerau gweithredol yn ôl patrwm maer.

**Band 4:** Cadeiryddion pwyllgorau arolygu ac archwilio, ac arweinwyr prif grwpiau gwrthblaid.

**Band 3:** Aelodau cabinet, dirprwy arweinwyr cynghorau dan strwythurau gwleidyddol newydd, ac Arweinwyr dan y pedwerydd dewis (neu Gadeirydd y Bwrdd)[1] .

**Band 2:** Arweinwyr cynghorau a meiri a etholir yn uniongyrchol gyda rheolwyr cyngor.

**Band 1:** Meiri gweithredol a etholir yn uniongyrchol gyda chabinet.

**Llunio Cymharydd ar gyfer Arweinydd**

7. Mae’r tîm adolygu wedi dewis cymharu arweinwyr awdurdodau ag Aelodau’r Cynulliad Cenedlaethol.  Ni ddylid ystyried bod arweinwyr dan y strwythurau gwleidyddol newydd yng Nghymru yn llai pwysig nag Aelodau’r Cynulliad Cenedlaethol a'u cyfoedion.  Mae hyn wedyn yn rhoi pecyn cyfan ar gyfer arweinwyr amser llawn o £35,437 o 1 Ebrill 2000 am grŵp canolrif yr awdurdodau.  Wedyn tynnir y lwfans sylfaenol oddi ar hyn i roi Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig (LCA) ar gyfer Arweinydd y grŵp canolrif o awdurdodau yn seiliedig ar boblogaeth a chyfrifoldebau cyllideb.

[1] Mae’r tîm adolygu yn nodi yma y byddai trefniadau amgen Cymru ar gyfer yr Arweinydd dan y pedwerydd dewis (Canllawiau ar Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar Gadeirydd y Bwrdd) yn cynnwys cyfrifoldebau y gellid eu cymharu’n fras ag Arweinydd â Chabinet dan y trefniadau gwleidyddol newydd.  Serch hynny, barn y tîm adolygu oedd na ddylid ystyried eu bod ar yr un lefel ag Arweinydd â Chabinet gan nad yw Cadeirydd Bwrdd dan y pedwerydd dewis yn gweithredu dan yr un rhaniad gweithredu/archwilio â phatrymau gweithredol eraill.  Yn bwysicach,  mae’r cyngor llawn yn dal i feddu ar y pŵer i wyrdroi ei benderfyniad.

**Argymhellion ar Lefelau o Dâl a Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig i Gynghorwyr sy'n Arweinyddion yn y Grŵp Canolrif o Awdurdodau yn Seiliedig ar Faint y Boblogaeth a'r Gyllideb.**

| Bandiau | Swyddi | Lwfans Sylfaenol | Maint Safle | Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig | Pecyn Cyfan |
|---|---|---|---|---|---|
| **Band 1** | Meiri a Etholir | £9,907 | 125% | £31,913 | £41,820 |
| **Band 2** | Arweinwyr a Meiri a etholir gyda Rheolwr Cyngor | £9,907 | 100% | £25,530 | £35,437 |
| **Band 3** | Cadeiryddion y Bwrdd dan y 4ydd Dewis, D/Arweinwyr[2] ac Aelodau Cabinet | £9,907 | 50% | £12,765 | £22,672 |
| **Band 4** | Cadeiryddion Arolygu ac Archwilio ac Arweinwyr Prif Grwpiau Gwrthblaid | £9,907 | 30% | £7,659 | £17,566 |
| **Band 5** | Cadeiryddion Pwyllgorau Eraill, D/Gadeiryddion Arolygu ac Archwilio ac Aelodau Cabinet sydd â Phwerau Penderfynu ar Batrwm Maer | £9,907 | 20% | £5,106 | £15,013 |
| **Band 6** | Dirprwy Gadeiryddion Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau Eraill, Arweinwyr Grwpiau Gwrthbleidiau Llai[3] | £9,907 | 10% | £2,553 | £12,460 |

[2] Mae'r tîm adolygu yn derbyn bod achos cryf o blaid cynnydd rhesymol yn Lwfans y Cyfrifoldeb Arbennig a argymhellir ar gyfer Dirprwy Arweinwyr, gan fod rôl arbennig gan Ddirprwy Arweinydd y tu hwnt i aelodau eraill o'r cabinet lawer tro. Os felly y mae, yna mae'r tîm adolygu yn awgrymu defnyddio 5-10 o bwyntiau canran wrth eu hasesu am Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig. E.e., byddai hyn yn golygu Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig Dirprwy Arweinydd o £14,042-£15,318. Ni fanylwyd ar hyn yn y bandiau oherwydd fod y tîm yn credu y dylid cael chwe band ar y mwyaf. Gall mwy na chwech fod yn gymhleth a gellid colli rheolaeth arnynt yn gyflym, nes bod y broses bandio yn gymharol ddiystyr.

[3] Mae deddfwriaeth yn cydnabod bodolaeth grŵp gwleidyddol ar gyngor lle bo dau aelod yn unig. Cynigir yma fod yn rhaid i grŵp gwleidyddol feddu ar o leiaf 10% o'r seddau ar gyngor er mwyn i Arweinwyr grŵp gwrthbleidiau llai fedru hawlio Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig. Dylai'r un peth fod yn wir wrth gwrs ar gyfer prif grwpiau gwrthblaid.

- Argymhellir hefyd bod gan aelodau’r hawl i gael un Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn unig.

- Yn ogystal, rydym yn annog bod cynghorau yn cyfyngu’r nifer o Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig a delir i 50 y cant o’r cynghorwyr ar y mwyaf, fel nad yw Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig yn cael eu talu i fwyafrif o aelodau, ac nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddol.

# AMRYWIADAU A GYNIGIR AR LWFANSAU CYFRIFOLDEB ARBENNIG

## Poblogaeth Cynghorau Unedol Cymru - Y Grwpiau

Yn seiliedig ar ffigurau Awst 1998 oddi wrth y Cynghorau eu hunain

| Grwpiau Poblogaeth | Grwpiau Arfaethedig | Poblogaeth yr Awdurdod Lleol | Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig Arfaethedig | Dull o Gyfrif | Pecyn Cyfan: LS + LCA |
|---|---|---|---|---|---|
| >300,001 | Sir Caerdydd | 315,040 | Band LCA 1: £44,678<br>Band LCA 2: £35,742<br>Band LCA 3:£17,871<br>Band LCA 4: £10,723<br>Band LCA 5: £ 7,149<br>Band LCA 6: £ 3,574 | X125%:LCA yr Arweinydd eu hun.<br>**X 40%: LCA Arweinydd canolrifol**<br>X 50%: LCA yr Arweinydd<br>X 30%: LCA yr Arweinydd<br>X 20%: LCA yr Arweinydd<br>X 10%: LCA yr Arweinydd | £54,585<br>£45,649<br>£27,778<br>£20,630<br>£17,056<br>£13,481 |
| 200,001-300,000 | Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Dinas a Sir Abertawe | 241,313<br>230,100 | Band LCA 1: £38,295<br>Band LCA 2: £30,636<br>Band LCA 3:£15,318<br>Band LCA 4: £ 9,191<br>Band LCA 5: £ 6,127<br>Band LCA 6: £ 3,064 | X125%: LCA yr Arweinydd<br>**X 20%: LCA Arweinydd canolrifol.**<br>X 50%: LCA yr Arweinydd<br>X 30%: LCA yr Arweinydd<br>X 20%: LCA yr Arweinydd<br>X 10%: LCA yr Arweinydd | £48,202<br>£40,543<br>£25,225<br>£19,098<br>£16,034<br>£12,971 |
| 100,001-200,000 (ALI Canolrifol) | Sir Gaerfyrddin<br>Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Sir y Fflint<br>Bwredistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>B. Sirol Casnewydd<br>B. Sirol Pen-y-bont<br>Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Sir Powys<br>Bro Morgannwg<br>Gwynedd<br>Sir Benfro<br>B. Sirol Conwy | 169,108<br>169,100<br>145,300<br>139,459<br>137,300<br>131,500<br>125,200<br>124,400<br>119,500<br>118,000<br>114,400<br>110,600 | **Band LCA 1: £31,913**<br>**Band LCA 2: £25,530**<br>**Band LCA 3: £12,765**<br>**Band LCA 4: £ 7,659**<br>**Band LCA 5: £ 5,106**<br>**Band LCA 6: £ 2,553** | **X 125%: LCA yr Arweinydd**<br>**LCA Arweinydd Canolrifol**<br>**X 50%: LCA yr Arweinydd**<br>**X 30%: LCA yr Arweinydd**<br>**X 20%: LCA yr Arweinydd**<br>**X 10%: LCA yr Arweinydd** | £41,820<br>£35,437<br>£22,672<br>£17,566<br>£15,013<br>£12,460 |
| <100,000 | B. Sirol Tor-faen<br>Sir Ddinbych<br>Sir Fynwy<br>Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Ceredigion<br>Ynys Môn<br>Bwreistref Sirol Merthyr Tudful | 90,400<br>90,400<br>86,248<br>73,200<br>70,400<br>67,055<br>57,300 | Band LCA 1: £25,530<br>Band LCA 2: £20,424<br>Band LCA 3:£10,212<br>Band LCA 4: £ 6,127<br>Band LCA 5: £ 4,085<br>Band LCA 6: £ 2,042 | X125%: LCA yr Arweinydd<br>**- 20%: LCA Arweinydd Canolrifol**<br>X 50%: LCA yr Arweinydd<br>X 30%: LCA yr Arweinydd<br>X 20%: LCA yr Arweinydd<br>X 10%: LCA yr Arweinydd | £35,437<br>£30,331<br>£20,119<br>£16,034<br>£13,992<br>£11,949 |

## Amrywio ar Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig

(a) Mae'r Awdurdodau ym mand poblogaeth 100,001 - 200,000 yn dynodi awdurdodau canolrifol o ran poblogaeth a chyllideb. Mae'r argymhellion ar Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig ym Mhennod Dau yn berthnasol iddynt.

(b) Mae Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig yr holl Arweinyddion eraill yn gysylltiedig a Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig yr Arweinwyr canolrif trwy ddringo/disgyn fesul 20%.

(c) Wedyn mae pob Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig arall yn gysylltiedig â Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig eu Harweinydd **eu hun**, wedi ei ddynodi fel canran, fel a nodir.

(d) Y Grwpiau: dewiswyd pedwar grŵp i roi ystyriaeth i gyfrifoldeb poblogaeth a chyllideb pob awdurdod.

**Hybu Tryloywder - Hierarchaeth o Atebolrwydd**

8. Mae'r tîm adolygu yn cynnig y gallai gweithredu ei argymhellion ddibynnu ar fabwysiadu mecanweithiau i alw cynghorwyr i gyfrif yn briodol. Serch hynny, mater i'r cyngor fydd penderfynu pa fecanwaith sy'n briodol dan yr amgylchiadau. Rydym wedi cyflwyno cyfres o fecanweithiau ar raddfa, sy'n cynyddu o ran eu llymder wrth fynd i lawr y rhestr.

**Teithio a Chynhaliaeth**

9. Rydym yn cefnogi'r syniad o lwfans unffurf ar gyfer teithio a chynhaliaeth, a byddai'r fformiwla am gyfrif lwfans teithio unigol fel a ganlyn:

- Nifer y teithiau i gyfarfodydd sydd X o filltiroedd oddi wrth fan cyfarfod X cyfradd milltiroedd + swm tybiedig am ddyletswyddau anffurfiol/heb eu cymeradwyo.

Gellir datblygu trefniant tebyg ar gyfer lwfansau cynhaliaeth.

**Pensiynau**

10. Rydym o'r farn mai'r trefniant orau fyddai darpariaeth pensiwn trwy gynllun pensiwn personol, a bod y cyngor yn darparu yn ychwanegol i gyfraniad y cynghorwyr. Dylai'r cyngor dynnu'r swm ar gyfer cyfraniad y cynghorydd, a'r cyngor wedyn yn talu cyfraniad o ryw 10%. Bydd hyn yn sicrhau bod pob cynghorydd y mae angen darpariaeth pensiwn arno/arni yn ei derbyn. Rydym hefyd yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio eu cyd-bwerau i fargeinio am gynllun pensiwn preifat cyffredin i bob cynghorydd yng Nghymru, er mwyn cael yr enillion gorau.

**Trethiant**

11. Er mwyn osgoi'r gwaith llafurus a hirwyntog o restru mân eitemau gwario, a'r baich a roddir felly ar swyddfeydd treth o ganlyniad, mae'r tîm adolygu yn credu y dylai Cyllid y Wlad dderbyn lefel safonol o dreuliau heb gyfiawnhad manwl gan bob cynghorydd unigol. Byddai gan unrhyw gynghorydd yr hawl bob amser i gyfiawnhau cais uwch os yw'n briodol. Gall hyn olygu newidiadau pellach yn y ddeddfwriaeth/rheoliadau, ac anogwn Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru (CLILC)

a'r Cyngor Partneriaeth i bwyso am y newidiadau hyn ac egluro'r hyn a ddylai fod yn dreuliau cyfiawn anrhethadwy.

**Budd-daliadau Lles**

12. Er hynny, cawsom wybod bod angen incwm o £8,000 y flwyddyn er mwyn codi'r rhan fwyaf o bobl allan o fagl y budd-daliadau. A bwrw bod hyn yn wir, credwn fod ein hargymhellion ar y lwfans sylfaenol yn ddigon fel y gallai'r rhan fwyaf o gynghorwyr sy'n derbyn budd-daliadau fod yn gynghorwyr heb ddioddef colled yn eu hincwm. Yn wir, dylai fod yn ddigon fel y gall llawer roi'r gorau i dderbyn budd-daliadau yn gyfan gwbl heb ddioddef caledi ariannol. Unwaith eto anogwn y Cyngor Partneriaeth a CLILC i ystyried sut y gellid gwneud y system fudd-daliadau yn fwy cydnaws â gwasanaeth cyhoeddus, a gwneud argymhellion a sylwadau'n unol â hynny.

**Rhwystrau i Wasanaeth Cyhoeddus ac Annog Pobl i Sefyll mewn Etholiad**

13. At ei gilydd, mae'r arolwg yn cefnogi argymhellion Adroddiad Kerley (gw. Atodiad Pump). Yn ogystal, rydym yn argymell y canlynol yn benodol:

**Annog menywod i sefyll etholiad - Diwygio'r Gyfraith**

14. Mae'n amlwg y gellir gwneud mwy i annog menywod i sefyll etholiad i gynghorau. Cafwyd addewid o newid sylweddol yn y gyfraith a fyddai'n caniatáu rhestr fer o fenywod i gyd yn nhrefniadau dethol y pleidiau. Gall hyn fod yn arf grymus wrth annog menywod i sefyll yn etholiadau'r cynghorau, ond nid yw o fawr werth onid yw'r pleidiau gwleidyddol yn ei ddefnyddio. Argymhellir bod grwpiau gwleidyddol yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ymrwymo i dargedau penodol o ymgeiswyr benywaidd, â'r nod eglur o gynyddu eu niferoedd. Dylent hefyd sicrhau fod canran penodol o ymgeiswyr benywaidd wedi eu dethol i sefyll am seddau enilladwy. Rhaid gwneud gwaith cyn y ddeddfwriaeth ar ganiatáu rhestrau byrion o fenywod i gyd, er mwyn braenaru'r tir a chael cefnogaeth pob plaid wleidyddol.

**Annog Lleiafrifoedd i Sefyll Etholiad**

15. Gellid estyn y gwaith hwn o dargedu ymgeiswyr benywaidd hefyd i ymgeiswyr o grwpiau eraill nad ydynt wedi eu cynrychioli'n ddigonol, yn enwedig lleiafrifoedd ethnig, pobl sydd ag anabledd, a phobl ifainc mewn swyddi.

**Cadw Cynghorwyr Benywaidd - Lwfans Dibynyddion a Gofal Plant**

16. Mae'r tîm adolygu yn argymell talu Lwfans Dibynyddion a Gofal Plant, yn amodol ar raddfeydd gwahanol a lefelau uchafswm. Argymhellir talu'r elfen o ofal plant ar raddfa lleiafswm cyflog hyd at uchafswm o 15 awr yr wythnos. Argymhellir hefyd y dylid talu'r lwfans ar sail hunan-fonitro. Er enghraifft,

- Rhaid i Aelod gofrestru fod ganddo/ganddi blentyn dibynnol dan 14 oed sy'n byw gydag ef/gyda hi.

- Hawlio'r lwfans wrth ddangos datganiad wedi ei lofnodi, sy'n dweud bod gofal plant wedi ei ddarparu gan rywun sy'n gwarchod plant a heb ei dalu i aelod o'r teulu agos.

17. Rydym hefyd yn argymell y dylid talu lwfans gofal dibynyddion oedrannus a/neu anabl ar raddfa i'w thalu gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol (hyd at uchafswm y cytunwyd arno gan y Cyngor a/neu ei swyddogion) er mwyn darparu cynorthwy-ydd Gofal Cartref. Roeddem hefyd o'r farn y dylid cael derbynneb am y lwfans hwn gan y byddai wedi ei ddarparu gan ofalwyr proffesiynol.

**Y System Wleidyddol – Cyfnod o Wasanaeth**

18. Gellid pennu hyd y cyfnod y gall cynghorydd wasanaethu, er mwyn sicrhau bod Aelodau newydd yn dod i'r amlwg. Eto i gyd, mae angen cydbwyso hyn â'r ymwybyddiaeth fod aeddfedrwydd a phrofiad yn gaffaeliad pwysig i gynghorydd, a bod yna broblem wrth geisio denu ymgeiswyr am bob sedd. Byddai'n rhaid i bleidiau gwleidyddol gytuno ar hyn yn y tymor byr.

**Cynyddu Ymwybyddiaeth Gyhoeddus**

19. Mae'n amlwg bod angen rhoi gwybod i bobl am yr hyn y mae cynghorwyr yn ei wneud, y cymorth a roddir iddynt, a sut i fynd yn gynghorydd. Mae'n debyg na fydd hyn ynddo'i hun yn ddigon, ond cam cyntaf fyddai ymgyrch ymwybyddiaeth gyffredinol o'r fath. Cam yw hwn a awgrymwyd gan Kerley (gw. Atodiad 5) ymhlith eraill, ac rydym yn cefnogi ei argymhellion. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn eglur fod aelodau'r cyhoedd at ei gilydd yn anwybodus ynghylch llywodraeth leol.

**Cymorth i Gynghorwyr**

20. Awgrymwn yma fod awdurdodau lleol yn manteisio fwy ar yr hawl i gyflogi ymgynghorwyr gwleidyddol i gynorthwyo'r cynghorwyr wrth eu gwaith. Gellir hwyluso gwaith cynghorwyr anweithredol ar bwyllgorau arolygu ac archwilio yn arbennig petai ymgynghorwyr gwleidyddol wedi eu cyflogi i wneud llawer o'r ymchwil sy'n gysylltiedig â phleidiau yn hytrach na'i adael i unigolion.

**Annog a Lledaenu Arfer Da**

21. Mae'r tîm adolygu yn awgrymu bod ymdrech Sir Fynwy i annog mwy o bobl i sefyll etholiad i'r cyngor yn cael ei fonitro a'i adolygu i weld pa wersi a ddysgir. Awgrymir hefyd bod CLILC yn gweithio fel cyfnewidfa cynlluniau tebyg ac arferion da.

**Lwfans Hyfforddi a Datblygu neu Gyfrif Dysgu Unigol**

22. Awgrymir y dylai Aelodau gael cyllideb dybiedig ar gyfer hyfforddiant a sgiliau, hyd at £1,000 y flwyddyn. Bydd hyn yn caniatáu cynghorwyr unigol i wario eu cyllideb ar eu hanghenion unigol, gan roi cryn hyblygrwydd iddynt. Byddai'n gweithio mewn modd tebyg i'r cyfrifon dysgu unigol newydd lle na fyddai'r Aelodau eu hunain yn derbyn y lwfans, ond y byddai'n cael ei wario ar eu rhan. Argymhellir hefyd fod y lwfans hwn wedi ei gysylltu â chynllun datblygu personol Aelod, ac y gellid dynodi anghenion hyfforddi a datblygu ar sail y cynllun hwn a llunio cynllun gweithredu.

**Cydweithio â'r Cyflogwyr**

23. Mae'n amlwg fod angen rhagor o waith gyda chyflogwyr ar ryddhau gweithwyr i wasanaethu ar gynghorau.

**Agor Llywodraeth Leol - Cynllun Ymddiswyddo**

24. Yng Ngweriniaeth Iwerddon cafwyd cynllun rhodd un-taliad i gynghorwyr a ymddiswyddodd yn wirfoddol cyn etholiadau lleol mis Mehefin 1999. Y pwrpas a gyhoeddwyd oedd gwobrwyo cynghorwyr a oedd wedi gwasanaethu ers cyfnod hir, ond y sgil-effaith anochel oedd annog yr Aelodau hen i ymddiswyddo a rhoi lle i Aelodau newydd ddod i'r amlwg. Argymhellir bod y Cynulliad yn ystyried cynllun tebyg ag uchafswm taliad o £10,000, e.e. i gynghorwyr Cymru. Dylid gwneud hyn ar y cyd ag ymgyrch weithredol o addysgu a recriwtio. Argymhellir hefyd y dylid astudio'n fanylach effeithiau cynllun rhodd un-taliad Iwerddon.